# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

Dyddiad ac Amser

**4.00 y.h., DYDD MAWRTH, 10FED MEDI, 2024**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

**I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679556**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

**Cynghorwyr Gwynedd**

**Dafydd Davies**
**Gareth Tudor Jones**
**John Brynmor Hughes**
**Gruffydd Williams**
**Gareth Williams**

**Eraill**

**Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.**

**Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd**

**Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol**

**Ymddiriedolaeth Genedlaethol,**
**Cyfoeth Naturiol Cymru,**
**Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,**
**Cyfeillion Llŷn,**
**Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,**
**Undeb Amaethwyr Cymru,**
**Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,**
**Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,**
**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,**
**Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.**

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldebau.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

I ystyried unrhyw eitem sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd.

**4. COFNODION** 4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2024, fel rhai cywir.

**5. PROSIECT TIRLUN BYW LLŶN** 9 - 11

I rannu gwybodaeth gydag Aelodau ar brosiect ‘Tirlun Byw Llŷn’.

**6. CYNLLUN RHEOLI’R AHNE** 12 - 14

I rannu gwybodaeth gydag Aelodau ar Gynllun Rheoli’r AHNE.

**7. PROSIECT 'PERTHYN'** 15 - 19

I gyflwyno gwybodaeth i Aelodau ar y Prosiect ‘Perthyn’.

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 27/06/2024

**Yn bresennol**:

**Aelodau:** Y Cynghorwyr **Gareth Williams**, **Gareth Tudor Jones**, **Gruffydd Williams** ac **Angela Russell** (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) ynghyd â **Noel Davey** (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), **Jina Gwyrfai** (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), **Sianelen Plemming** (Cyngor Cymuned Pistyll), **T. Victor Jones** (Cadeirydd) (Cyngor Cymuned Llanbedrog) **Robert Parkinson** (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), **Morgan Jones-Parry** (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), **Linda Ashton** (Cyfoeth Naturiol Cymru), **Sian Parri** (Cyngor Cymuned Tudweiliog) a **Jenny Emmett** (Archeoleg Gwynedd).

**Swyddogion: Bleddyn P. Jones** (Swyddog AHNE Llŷn), **Morus Llwyd Dafydd** (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn), **Heledd Fflur Jones** (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio) a **Sioned Mai Jones** (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:** Mr John Watkins, Prif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol.

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol T. Victor Jones (Cyngor Cymuned Llanbedrog) yn Gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2024/25.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd ethol Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog) yn Is-gadeirydd ar gyfer y cyfnod 2024/25.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd datganiadau o ymddiheuriad gan y Cynghorydd **John Brynmor Hughes**, **Einir Wyn** (Cyngor Cymuned Llanengan), Rhian Sanson (Cyngor Tref Nefyn), **Dewi Evans** (Cyngor Cymuned Aberdaron), **Eirian Allport** (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr), **Gillian Walker** (Cyfeillion Llŷn) ac **Andrew Davidson** sydd newydd ymddeol o Archeoleg Gwynedd (Bydd Jenny Emmett yn cymryd ei le ar y Cydbwyllgor).

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cyd-bwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd, 2023, fel rhai cywir.

## 7. DELWEDD NEWYDD I'R AHNE

Croesawyd John Watkins, Prif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol i'r cyfarfod ac atgoffwyd y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol o'r drafodaeth 'nol yng nghyfarfod mis Tachwedd, 2023 am greu brand a delwedd newydd i'r dynodiad Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. Cyfeiriwyd at yr argymhelliad i newid yr enw gweithredol o 'Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol' i 'Dirweddau Cenedlaethol'. Adroddwyd bod yr enw Tirweddau Cenedlaethol yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru a Lloegr gan nodi bod cefnogaeth wedi ei fynegi i'r newid hwn gan Lywodraeth Cymru.

Mynegodd Prif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol bod y newid yma ar y gweill ers sawl mlynedd yn dilyn cyfnod o adolygu ac ymchwil dwys. Nododd bod y dynodiadau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol i fod gystal â'r Parciau Cenedlaethol o ran eu safon (er fod y dynodiad yn wahanol) gan adrodd bod y newid hwn i'r brand a'r enw yn ymgais i godi ymwybyddiaeth yn genedlaethol o bwysigrwydd y tirweddau. Credwyd y byddai hyn o gymorth i ddenu adnoddau i'r dynodiadau gan atgoffa eu bod yn ddynodiadau cenedlaethol sy'n cael eu rheoli yn lleol.

Nodwyd bod pob un o'r tirweddau yn Lloegr a nifer yng Nghymru bellach yn defnyddio'r enw a'r brand newydd, sy'n parchu pa mor unigryw yw'r tirweddau unigol ond yn cydnabod eu bod yn rhan o deulu ehangach. Mynegwyd cefnogaeth i'r hyn mae'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn ceisio eu cyflawni. Credwyd ei bod yn bwysig i benderfyniadau ac ystyriaethau lleol ymddangos yn rhan o deulu cenedlaethol ac y byddai hyn o fudd wrth ddenu arian ac ehangu eu proffil. I gloi adroddwyd ar y mewnbwn a dderbyniwyd ar y brand newydd gan nodi ei fod wedi derbyn sylwadau cadarnhaol iawn.

Derbyniwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:-

- Nodwyd bod gwefan Tirweddau Cenedlaethol yn Saesneg a bod logo Llywodraeth Cymru ar y wefan. Mynegwyd anfodlonrwydd cryf nad oedd y wefan yn ddwyieithog.
- Dadleuwyd bod angen gwarchod yr Iaith Gymraeg gan fynegi barn na fyddai tegwch yn cael ei roi i'r Gymraeg gan y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol.
- Amlygwyd yr awydd i anfon neges bod Cymru yn genedl ar wahân a chredwyd y byddai gwrthod y newid hwn yn cyflawni hynny.
- Mynegwyd safbwynt bod gwerth mabwysiadu'r enw a'r brand newydd pe bai gwneud hynny yn cryfhau proffil yr AHNE yma yn Llŷn. Cydnabuwyd bod yr iaith Gymraeg yn bwysig iawn a gofynnwyd a oes modd cyfieithu gwefan Tirweddau Cenedlaethol fel ei fod yn ddwyieithog.
- Credwyd bod yr enw a logo presennol AHNE Llŷn yn gofiadwy ac yn ddeniadol gan fynegi safbwynt bod yr enw Tirweddau Cenedlaethol yn awgrymu Cymru a Lloegr. Mynegwyd y byddai 'Tirweddau Cymru' yn well enw pe bai rhaid newid.
- Nodwyd bod pawb yn gyfarwydd efo'r enw AHNE Llŷn a chredwyd nad oedd awydd i'w newid.
- Diolchwyd i Brif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol am ei sylwadau a'i ddadl ond mynegwyd cefnogaeth i lynu â'r penderfyniad gwreiddiol o beidio â mabwysiadu'r teitl a'r logo newydd.

Mewn ymateb, nododd Prif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol:-

- Ei fod yn cydnabod y pwynt bod y wefan yn uniaith Saesneg.
- Na fyddai yn derbyn y pwynt bod y Gymdeithas yn tanseilio'r iaith Gymraeg gan bwysleisio nad oes elfen o orfodi yn digwydd o gwbl.

- Ei fod yn gefnogol iawn o sut mae'r dynodiad yn Llŷn yn cael ei weithredu a ni chredai bod y newid a awgrymwyd yn bygwth yr iaith Gymraeg na'r cyfansoddiad yn lleol.
- Bod yr adolygiadau wedi bod yn un annibynnol yn Lloegr a bod yr adolygiad yng Nghymru hefyd yn un annibynnol ac ar wahân i'r adolygiad yn Lloegr.

Nododd y Swyddog AHNE Llŷn ei fod yn gweld y ddwy ochr. Teimlwyd bod cryn ymwybyddiaeth o'r enw AHNE Llŷn wedi ei sefydlu dros y blynyddoedd a bod y logo newydd yn anhysbys a bod llawer yn diflasu ar newid. Er hyn credwyd bod cyfle i greu delwedd newydd a chreu cysyniad o fod yn rhan o deulu, ond bod pryderon yn bodoli.

Diolchodd Prif Weithredwr y Gymdeithas Tirweddau Cenedlaethol am amser y Cyd-bwyllgor Ymgynghorol gan bwysleisio nad oedd y newid yma yn mynd i gael ei wthio ac mai penderfyniad y Cyd-bwyllgor ydyw. Dymunodd yn dda i'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol.

**PENDERFYNIAD**

**a) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**
**b) Ategu'r penderfyniad gafodd ei wneud yng nghyfarfod blaenorol o'r Cydbwyllgor ar 22 Tachwedd 2023 i beidio mabwysiadu'r teitl a'r logo cenedlaethol newydd 'Tirweddau Cenedlaethol'.**

## 8. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU CYFALAF AHNE LLŶN

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn er gwybodaeth i'r aelodau er mwyn eu diweddaru ar brosiectau cyfalaf AHNE Llŷn. Eglurwyd bod Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLC) yn gynllun grant gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau cyfalaf yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE.

Cadarnhawyd bod y prosiectau yn cwmpasu tair blynedd (2022-25). Adroddwyd ar themâu'r prosiectau cyfalaf oedd wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru sef Bioamrywiaeth ac adfer natur, Dad-garboneiddio, Cymunedau gwydn a gwyrdd a Thwristiaeth Gynaliadwy.

Darparwyd diweddariadau ar y prosiectau cyfalaf TCLC Llŷn yn yr adroddiad, prosiectau megis:

- Adnewyddu grisiau Porth Ysgo
- Tiroedd Comin Mynytho, Horeb a Rhos Botwnnog
- Coed Cynhenid
- Rhywogaethau ymledol estron
- Canolfan Llithfaen
- Maes Parcio chwarel Llanbedrog
- Prosiectau ar y Cyd - Terfynau Traddodiadol, Yr Awyr Dywyll a Phecyn Addysg.

Holwyd am y prosiect Rhywogaethau ymledol estron gan nodi bod planhigion estron i'w gweld mewn lleoliadau megis Garn Boduan a Thre Ceiri. Cyfeiriwyd at y prosiect Coed Cynhenid a gofynnwyd os oedd Swyddogion yr AHNE yn cynnal trafodaethau efo Cadw cyn plannu coed. Pryderwyd bod y plannu yn digwydd mewn ardaloedd sy'n archeolegol sensitif. Cadarnhawyd bod yr Uned AHNE yn bwriadu cynnal adolygiadau archaeoleg yn fuan cyn plannu coed. Awgrymwyd efallai bod grantiau ar gael gan Cadw a

gofynnwyd i'r Swyddogion rannu ddiweddariadau ynglŷn â'r plannu efo cynrychiolydd Archeoleg Gwynedd fel ei bod yn gallu cyfrannu.

Holwyd ymhellach ynghylch yr ardaloedd plannu coed â'r raddfa o wneud hynny. Nodwyd bod bwriad edrych ymhellach ar safleoedd y tiroedd sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd ond bod safle Ysgol Botwnnog yn edrych yn addawol iawn. Nodwyd nad oedd bwriad plannu ar y safleoedd i gyd. Cadarnhawyd bod modd rhoi grantiau i berchnogion safleoedd carafanau i blannu coed drwy'r Gronfa Ddatblygu Cynaliadwy. Gobeithir gallu ystyried prosiectau tebyg i hyn yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Gofynnwyd gan Aelod a oes modd derbyn crynodeb neu restr o brosiectau cyfalaf dros y 3 mlynedd ddiwethaf er mwyn cael gweld beth oedd y prosiectau, ym mha ardal a faint o gyfalaf gafodd ei roi er mwyn gweld yr amrywiaeth. Gofynnwyd am y wybodaeth yma am y Gronfa Ddatblygu Gynaliadwy yn ogystal. Bydd y Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn yn darparu'r wybodaeth.

Diolchwyd am yr holl waith gan nodi bod adborth positif iawn wedi ei dderbyn am y gwaith o adnewyddu grisiau Porth Ysgo. Diolchwyd hefyd i Swyddogion AHNE am y gwaith ar y ganolfan yn Llithfaen gan nodi bod pawb yn edrych ymlaen i'r ganolfan agor. Holwyd ynghylch y neuadd yn Llanbedrog gan adrodd bod cyflwr y neuadd yn wael a bod y to yn sâl. Gofynnwyd a oes cymorth ar gael gan fod gwaith gwario ar y neuadd. Cadarnhawyd y byddai'r Swyddogion AHNE yn trafod ymhellach efo'r aelod y tu allan i'r cyfarfod hwn.

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 9. PROSIECT "PERTHYN"

Adroddwyd bod yr eitem yma wedi ei chynnwys ar y Rhaglen ar gais aelod Cyngor Cymuned Tudweiliog. Nodwyd bod tri Cyngor Cymuned yn Llŷn wedi penderfynu dynodi eu hardaloedd yn Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol ym mis Rhagfyr 2023, gyda'r bwriad o sefydlogi a chryfhau'r Gymraeg yn Llŷn yn dilyn pryderon am ddylanwadau ail-gartrefi, tai haf a thwristiaeth. Adroddwyd bod Cynghorau Cymuned eraill bellach wedi ymuno â'r prosiect.

Eglurwyd bod posibilrwydd i amrywio polisi cyhoeddus a gweithredu o blaid y Gymraeg yn yr ardaloedd sydd wedi eu dynodi yn Ardaloedd o Arwyddocâd Ieithyddol. Cyfeirir ar hyn ym mhapur safbwynt y Comisiwn Cymunedau Cymraeg.

Adroddwyd ar lafar gan aelod Cyngor Cymuned Tudweiliog ar waith y prosiect Perthyn a chytunwyd i dderbyn y wybodaeth. Bu cryn drafod ar y pwnc a cynigwyd i ail gynnwys yr eitem ar Raglen cyfarfod nesaf o'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol pan fydd yr adroddiad yn barod ac wedi ei rannu efo holl aelodau'r Cyd-bwyllgor.

**PENDERFYNIAD**

**a) Derbyn y wybodaeth.**
**b) Cynnal cyfarfod arall i drafod y mater.**

## 10. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Rhedwyd allan o amser cyn cyrraedd yr eitem hon. Bydd yr eitem yn cael ei chynnwys ar Raglen cyfarfod nesa'r Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn.

Dechreuodd y cyfarfod am 4.00yh a daeth i ben am 6.00yh

______________________________

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Medi 10fed 2024 |
| **TEITL** | Prosiect Tirlun Byw Llŷn |
| **PWRPAS** | Cyflwyno Gwybodaeth |
| **AWDUR** | Elin Wyn Hughes - Swyddog Gweithgareddau |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr Wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Ers mis Mehefin eleni, rwyf wedi dychwelyd i weithio gyda'r Uned fel Swyddog Gweithgareddau. Mae’r swydd hon yn gysylltiedig â phrosiect Tirlun Byw Llŷn ac yn cael ei hariannu ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a grant Cyfoeth Naturiol Cymru.

1.2 Mae tair thema i brosiect Tirlun Byw Llŷn sef Nodweddion Hanesyddol, Amgylchedd Naturiol a Mynediad. Nod y prosiect yw cwblhau mân waith ar y ddaear a chynnal gweithgareddau ac mae allbynnau penodol i’w cyrraedd - a dyma nhw:-

- *Gwaith ar 1-2 safle o fewn AHNE Llŷn ar gyfer pob un o’r themâu canlynol (i) nodweddion hanesyddol, (ii) cynefinoedd, a (iii) gwella mynediad.*
- *Cynnal 4 digwyddiad i gefnogi datblygiad sgiliau gwledig (e.e. cynnal ac adfer waliau cerrig a gwrychoedd)*
- *Cynnal 6 digwyddiad (Awyr Dywyll/Teithiau Cerdded) i roi cyfle i bobl gadw’n heini a dysgu am fyd natur a’r amgylchedd*
- *Cynnal isafswm o 8 digwyddiad i Wirfoddolwyr i gefnogi 3 thema'r prosiect, gan gynnwys adfer/cynnal nodweddion, hel sbwriel a gwella llwybrau.*

## 2.0 DIGWYDDIADAU HYD YMA

2.1 Er gwybodaeth i chi, mae cyfres o weithgareddau eisoes wedi bod yn digwydd dros gyfnod yr haf:-

**Hyfforddiant Sgiliau Gwledig**: - Cynhaliwyd tair sesiwn o hyfforddiant codi waliau cerrig sychion ar Fynydd Rhiw dan arweiniad Dilwyn Williams (Parc) a Kevin Roberts. Bu’r sesiynau yn hynod llwyddiannus gan ddenu criw da o fynychwyr gwahanol bob tro. Cynhaliwyd y sesiynau ar rannau o’r waliau oedd wedi dymchwel eisoes. Mae hyn yn golygu felly ein bod wedi cyfarch llawer o ofynion o grant drwy ail-godi ac atgyweirio strwythur

hanesyddol ac adfer cynefinoedd pwysig gan gydweithio gyda gwirfoddolwyr.

Hoffwn fod wedi cael mwy o ddiddordeb gan bobl leol i'r ardal hon. Mae'n braf cael cymaint o ddiddordeb gan bobl sydd wedi teithio ymhell – ond mae'n bwysig bod pobl leol yn cymryd diddordeb hefyd o ran cynaladwyedd y tirlun i'r dyfodol. Er mwyn cyfarch hyn – mae'n fwriad cynnal un sesiwn arall yn y dyfodol a chydweithio gyda phartneriaid eraill yn lleol.

**Sesiynau Casglu Sbwriel**:- Ar y cyd â Chanolfan Fenter Congol Meinciau, Cadwch Gymru'n Daclus a Chyngor Cymuned Botwnnog, bu dau ddigwyddiad casglu sbwriel ym mhentrefi Sarn Mellteyrn a Botwnnog. Roedd hyn er mwyn hyrwyddo Canolfan Fenter Congol Meinciau fel un o hybiau Cadwch Gymru'n Daclus. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw un fenythca offer casglu sbwriel a sachau cochion yno yn rhad ac am ddim.

Roedd yn gyfle arbennig i aelodau'r Cyngor Cymuned ddod at ei gilydd dros egwyl yr haf er mwyn gwneud gwelliannau amgylcheddol yn eu hardal gan drafod a sylwi ar wahanol faterion o bwys. Mae hyn yn ymarfer da yn fy marn i ac yn rhywbeth hoffwn ei estyn allan i Gynghorau Cymuned eraill yn y dyfodol.

**Hyfforddiant i'r Gwirfoddolwyr:-** Mae sawl un sydd yn gwirfoddoli gyda'r AHNE wedi cael y cyfle i ehangu eu sgiliau a mynychu cwrs strimio yng Ngholeg Meirion-Dwyfor Glynllifon. Mae'r arian grant wedi ariannu'r cwrs yn llawn iddynt. Y nod yw sicrhau ein bod yn dangos gwerthfawrogiad i'n gwirfoddolwyr ond hefyd wrth gwrs yn golygu fod ganddynt sgiliau allweddol a chymwysterau dilys i barhau gyda'u gwaith yn ddiogel a hyderus ar gyfer y dyfodol.

## 3.0 DIGWYDDIADAU AR Y GWEILL

3.1 Hoffwn rannu gwybodaeth gyda chi am weithgareddau sydd ar y gweill o fewn y misoedd nesaf a gofynnaf yn garedig i chi gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth amdanynt ac o bosib fynychu ambell un hefyd er mwyn cael blas uniongyrchol ar y gwaith yr ydym yn ei wneud:-

**Medi 13eg** – Sgwrs Capel Newydd Nanhoron gan John Dilwyn Williams yn Neuadd Sarn.

**Medi 15fed -** Taith Gerdded Plas yn Rhiw. Taith natur yng nghwmni'r arbenigwr madarch, Cynan Jones.

**Medi 25ain -** Sgwrs "Am y Tywydd" gyda Twm Elias yn Amgueddfa Forwrol Llŷn (Nefyn) yn edrych ar hen ddywediadau a choelion yn ymwneud â'r tywydd.

**Hydref 7fed -** Taith Gerdded Aberdaron. Taith Gerdded gyda Dysgwyr Cymraeg Dwyfor– gyda chroeso cynnes i bawb ymuno! Crwydro i Borth Meudwy ac yn ôl.

**Hydref 28ain –** Diwrnod Agored ar safle ac oddi fewn Capel Newydd Nanhoron.

**Tachwedd 2ail -**Taith Gerdded Meddyges Bryn Canaid :- Taith natur a hanesyddol ei naws yn dilyn ôl troed Ann Griffiths yn ardal Uwchmynydd gyda Glyn Roberts (Murpoeth).

**Tachwedd 15fed -** Taith Nos Mynydd Mawr:- Taith yn ngolau'r lleuad llawn i fyny i Fynydd Mawr, Uwchmynydd a chael gwybod mwy am henebion lleol yng nghwmni Rhys Mwyn.

**Rhagfyr 14eg -** Taith Nos Mynydd Rhiw:- Taith i Fynydd Rhiw er mwyn cael blas ar hanes bryngaerau'r ardal o dan un o ryfeddodau'r bydysawd – cawod feteor Geminid – eto gyda Rhys Mwyn.

3.2 Mae'r rhestr digwyddiadau yn dal i dyfu a byddwn yn rhannu gwybodaeth yn gyson gyda chwi.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Nid oes argymhelliad fel y cyfryw, dim ond rhannu gwybodaeth. Fel nodais, gofynnaf yn garedig i chi gynorthwyo i godi ymwybyddiaeth amdanynt ac o bosib fynychu ambell un hefyd. Buasem yn ddiolchgar unrhyw dro o'ch cefnogaeth a chael blas uniongyrchol ar y gwaith yr ydwyf yn ei wneud.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Medi 10fed 2024 |
| **TEITL** | Cynllun Rheoli'r AHNE |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr wybodaeth |

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Mae paratoi ac adolygu Cynllun Rheoli yn un o gyfrifoldebau Cyngor Gwynedd mewn perthynas â'r Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae gan y Cydbwyllgor Ymgynghorol rôl i'w chwarae yn y broses o baratoi ac adolygu'r Cynllun Rheoli.

1.2 Mae Cynllun Rheoli presennol AHNE Llŷn wedi dyddio ac angen ei adolygu. Yn anffodus mae nifer o ffactorau wedi amharu ar yr amserlen yn cynnwys y pandemig, gwaith ar brosiectau eraill a materion capasiti.

## 2.0 Y BROSES ADOLYGU

2.1 Wrth adolygu'r Cynllun bydd angen cymryd ystyriaeth o wybodaeth ddiweddaraf am nodweddion yr ardal, cynlluniau a strategaethau perthnasol, amcanion cadwraeth, prosiectau lleol ayb.

2.2 Hefyd wrth adolygu'r Cynllun bydd angen dilyn canllawiau wedi eu paratoi ar gyfer y broses. Cyhoeddwyd canllawiau yn benodol ar gyfer Cynlluniau Rheoli'r AHNE gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru nifer o flynyddoedd yn ôl bellach.

2.3 Yn diweddar mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi comisiynau cwmni Land Use Consultants i adolygu a diweddaru'r Canllawiau hyn a'u gwneud yn berthnasol i Barciau Cenedlaethol yn ogystal ag AHNE. Disgwylir i'r fersiwn derfynol gael ei gyhoeddi yn fuan.

## 3.0 CYFLWR YR AHNE A CHYD-DESTUN

3.1 Mae peth gwaith cefndirol eisioes wedi ei wneud ar gyfer adolygu Cynllun Rheoli AHNE Llŷn.

3.2 Comisiynwyd diweddariad o Adroddiad o Gyflwr yr AHNE. Mae'r

adroddiad yma yn cynnwys gwybodaeth am gyflwr gwahanol nodweddion AHNE Llŷn a'r pwysau arnynt. Mae crynodeb wedi ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor yn y gorffennol.

3.3 Hefyd beth amser yn ôl bu i'r Uned gomisiynnu Ymgynghorydd i ddiweddaru Cyd-destun y Cynllun. Roedd y gwaith yma yn golygu diweddaru gwybodaeth am gynlluniau, strategaethau, deddfau ayb sy'n berthnasol i Gynllun Rheoli'r AHNE.

## 4.0 RHINWEDDDAU LLŶN

4.1 Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynlluniau Rheoli blaenorol fe ddiffiniwyd pa rinweddau oedd yn perthyn i AHNE Llŷn ac maent i'w gweld isod. Ni ragwelir yr angen i addasu rhain ar gyfer y Cynllun diwygiedig.

- Tirlun ac Arfordir Hardd
- Tawelwch ac Amgylchedd lân
- Cyfoeth o fywyd gwyllt a chynefinoedd
- Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant
- Pobol a chymunedau clos
- Cynnyrch a busnesau lleol
- Mynediad a hawliau tramwy

## 5.0 YR WELEDIGAETH

5.1 Hefyd gosodwyd Gweledigaeth ar gyfer ardal yr AHNE (yn seiliedig ar 2040) yn y Cynllun presennol sef:

ARDAL O DIRLUN AC ARFORDIR HARDD YN GYFOETHOG O FYWYD GWYLLT SY'N DARPARU LLU O WASANAETHAU NATURIOL I DRIGOLION AC YMWELWYR. NODWEDDION HANESYDDOL A RHINWEDDAU ERAILL YN CAEL EU GWERTHFAWROGI A CHYMUNEDAU LLEOL YN CYNNAL YR IAITH A'R DIWYLLIANT CYMREIG.

5.2 Credir fod yr weledigaeth yma, i raddau health yn parhau yn berthnasol ond fod posibl symlhau ac ymateb i rai materion ychwanegol. Felly awgrymir y Weledigaeth ganlynol i'w chynnwys yn y Cynllun Rheoli diweddaraf :

**AHNE Llŷn 2050**

ARDAL O DIRLUN AC ARFORDIR HARDD GYDA BYWYD GWYLLT CYNHENID YN FFYNNU, LEFEL ISEL O LYGREDD AMGYLCHEDDOL A DIGONEDD O GYFLEON MYNEDIAD CYHOEDDUS. ADEILADAU A NODWEDDION HANESYDDOL MEWN CYFLWR DA, BUSNESAU LLEOL YN LLWYDDO A CHYMUNEDAU LLŶN YN CYNNAL YR IAITH A'R DIWYLLIANT CYMREIG.

## 6.0 CAMAU NESAF I'W CYMRYD

6.1 Yn fuan bydd yr Uned AHNE yn dechrau y gwaith o adolygu amcanion a pholisiau y Cynllun Rheoli presennol ac yn awgrymu diweddaru/ newid rhai agweddau er ymateb i wybodaeth newydd a/neu newid mewn amgylchiadau. Y bwriad yw trefnu cyfarfod o'r Cydbwyllgor i drafod y materion hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

6.2 Yna symudir ymlaen i ddiweddaru'r Cynllun Gweithredu sydd yn cynnwys manylion am y gwaith yr anelir ei gwblhau o fewn cyfnod gweithredol y Cynllun. Hefyd bydd angen adolygu'r Asesiadau Rheoliadau Amgylcheddol a Rhywogaethau sydd ynghlwm â'r Cynllun.

6.3 Bydd angen cynnal cyfnod o ymgynghori ar y Cynllun diwygiedig drafft. Fel rhan o'r gwaith yma byddwn yn cysylltu gyda mudiadau, sefydliadau ac unigolion trwy whanaol ddulliau i gael eu barn a'u safbwyntiau ar y Cynllun. Bydd gan y Cydbwyllgor rôl i'w chwarae yn ystyried y sylwadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori.

## 7.0 ARGYMHELLIAD

7.1 Derbyn yr wybodaeth yn yr adroddiad a'r Weledigaeth ddiwygiedig ar gyfer y Cynllun Rheoli.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn |
| **DYDDIAD** | Medi 10fed 2024 |
| **TEITL** | Prosiect "Perthyn" |
| **PWRPAS** | Gwybyddu Aelodau |
| **AWDUR** | Swyddog AHNE |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr argymhelliad |

**1.0 CYFLWYNIAD**

1.1 Mae'r adroddiad hwn ar y prosiect "Perthyn" yn cael ei gynnwys ar agenda'r Cydbwyllgor yn dilyn ei ystyried yn y cyfarfod blaenorol ar Fehefin y 27ain. Bryd hynny, yn dilyn trafodaeth hir ar y pwnc, penderfynwyd i drafod ymhellach yn y cyfarod nesaf.

**2.0 Y COMISIWN CYMUNEDAU CYMRAEG**

2.1 Sefydlwyd y Comisiwn Cymunedau Cymraeg gan Lywodraeth Cymru yn 2022 i edrych ar yr heriau sy'n wynebu'r Gymraeg ac i awgrymu ffyrdd o addasu polisiau cyhoeddus er cefnogi'r iaith yn y cymunedau. Mae'r Comisiwn yn cynnwys deg aelod annibynnol sydd ag arbenigedd a phrofiad mewn amrywiaeth o feysydd polisi. Cadeirydd y Comisiwn yw Dr Simon Brooks.

2.2 Cyhoeddwyd adroddiad terfynol y Comisiwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni ac roedd Y Prif Weinidog, Eluned Morgan AS yn bresennol.

2.3 Mae adroddiad y Comisiwn yn edrych ar ddirywiad y Gymraeg ac ymdrechion i'w chryfhau dros y degawdau diwethaf. Mae'n dod i gasgliad fod cadarnleoedd yr iaith, lle mae'r iaith ym cael ei defnyddio yn ddyddiol fel Llŷn, yn hanfodol o ran lles tymor hir yr iaith yn genedlaethol. Rhoddir ystyriaeth i sut i ddiffinio y cadarnleoedd hyn – a elwir yn ardaloedd o "arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch" yn yr adroddiad gan gydnabod and yw yn fater syml ac awgrymu gosod 40% o siaradwyr Cymraeg neu uwch.

2.4 Mae'r adroddiad yn symud ymlaen i awgrymu camau gweithredu yn yr ardaloedd "dwysedd uwch" er cynnal yr iaith, meithrin balchder ac

addasu polisiau cyhoeddus i fod yn fwy cefnogol. Mae argymhellion ar gyfer gweithredu mewn amrywiaeth o feysydd megis yr Economi, Addysg, Tai a Chynllunio. Gellir gweld adroddiad llawn y Comisiwn ar safle we Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/adroddiad-comisiwn-cymunedau-cymraeg

## 3.0 PROSIECT PERTHYN

3.1 Mae prosiect Perthyn, sydd wedi ei ddatblygu gan Cyfeillion Llŷn a Chymdeithas Pen-y-graig, yn ymateb i araith ddiweddar gan Jeremy Miles yn 2022 (pan oedd yn Aelod Cabinet dros Economi, Ynni a'r Iaith Gymraeg) pan ddywedodd "Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd… felly mae'n gyfrifoldeb arnom ni i ddod at ein gilydd i sicrhau ei dyfodol". Mae'r Prosiect yn unol â nod Llywodaeth Cymru i gael Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn cefnogi gwaith y Comisiwn Cymunedau Cymraeg sy'n argymell ardaloedd ardaloedd o "arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch".

3.2 Yn ychwanegol mae prosiect Perthyn yn hybu Croeso Cymraeg – sef diwydiant ymwelwyr sydd yn rhoi pwyslais a chefnogaeth i'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Yn benodol mae gan prosiect Perthyn 3 nod sef:

- Gwarchod a chryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol
- Cynyddu niferoedd siaradwyr ac aelwydydd Cymraeg
- Cyflwyno croeso Cymraeg i bawb a hanes ein bro i'r byd

3.3 Mae Cyfellion Llŷn a Chymdeithas Pen-y-graig wedi codi ymwybyddiaeth am y prosiect Perthyn ymysg cynghorau cymuned a thref yn Llŷn. O ganlyniad ar Ragfyr y 11eg 2023 bu i dri cyngor cymuned yn Llŷn – Aberdaron, Botwnnog a Thudweiliog benderfynnu dynodi eu hardaloedd yn Ardal o Arwyddocad Ieithyddol. Yn dilyn hyn bu i rai nifer o gynghorau cymuned eraill yn Llŷn ac Eifionydd ymuno yn y prosiect.

3.4 Mae prosiect Perthyn wedi edrych ar sawl maes arall cysylltiedig â'r iaith fel polisïau gosod tai, ystadegau ieithyddol, enwau Cymraeg ayb. Mae datganiad wedi ei baratoi ar ran prosiect Perthyn ac wedi ei gynnwys fel Atodiad 1.

## 4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Croesawu adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a datgan cefnogaeth i Lywodraeth Cymru.

4.2 Cefnogi mewn egwyddor prosiect Perthyn a'r 3 prif nod.

Sian Parri, (Cymdeithas Pen-y-graig, Cyfeillion Llŷn, Cyngor Cymuned Tudweiliog)
Margiad Roberts, Seimon Jones (Cymdeithas Pen-y-graig, Cyfeillion Llŷn),
Gareth Williams, (Cyfeillion Llŷn), Gruffudd Williams (Cyngor Tref Nefyn, Cyfeillion Llŷn)
Sion Williams – (Cyngor Cymuned Botwnnog), Dewi Evans (Cyngor Cymuned Aberdaron).

---

Diwedariad 29/08/2024

# Croesawu Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg

**Diweddaraf Perthyn**

Erbyn hyn mae deuddeg o Gynghorau wedi ymuno efo Cyfeillion Llŷn, Cymdeithas Pen-y-graig a rhwydwaith ehangach o fudiadau, mewn ymateb i neges Jeremy Miles "mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd...felly mai'n gyfrifoldeb arnon ni i gyd i ddod at ein gilydd i sicrhau ei dyfodol".

Mae yna amrywiaeth ieithyddol eang o fewn cymunedau Gwynedd a chymunedau Llŷn, felly mae'n amlwg fod angen amrywiaeth o bolisiau mewn ymateb iddynt. Mae anghenion Llŷn yn unigryw ac mae'r atebion yma yn unigryw hefyd. Dyma'r ardal y dywedodd Saunders Lewis amdani fod parhád y Gymraeg yn Llŷn (sy'n ddi-dor ers y chweched ganrif) yn fater o fyw neu farw i Gymru. Mae gwaith ymchwil Perthyn wedi cadarnhau fod argyfwng y Gymraeg yn waeth nac mae'r ystadegau swyddogol yn ei ddangos. Mae angen gweithredu brys.
Mae gan pawb sydd wedi uno o dan faner Perthyn nod cyffredin o 'warchod a chryfhau'r Gymraeg'. Rydym yn gweithio tuag at wireddu gweledigaeth o Benrhyn Llŷn yn 2050, lle bydd Croeso Cymraeg i bawb, miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac ymwybyddiaeth fyd eang o werth ein hetifeddiaeth Gymreig a Chymraeg.

**Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymraeg Awst 2024**

Rydym yn croesawu adroddiad terfynol y Comisiwn Cymunedau Cymraeg a gyhoeddwyd yn Eisteddfod Rhondda Cynon Taf 2024. Rydym yn datgan ein cefnogaeth o Lŷn ac Eifionydd i ddynodi 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch er mwyn gweithredu fel ac y nodir yn argymhelliad y Comisiwn isod -
ARGYMHELLIAD - Dylid mewn 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch':

- dwysáu'r ystyriaeth a wneir o'r Gymraeg o fewn fframwaith polisi.
- caniatáu ymyraethau ac amrywiaeth polisi a phwyslais polisi o blaid y Gymraeg fel iaith gymunedol.
- sicrhau fod yr amrywiaeth polisi yn ymateb i anghenion cymdeithasol ac ieithyddol yr ardaloedd hyn.
- rhoi grymoedd angenrheidiol i rymuso cymunedau i wrthdroi shifft iaith.

**Adfywio Bro : Ardal Ni 2035**

Oherwydd penderfyniad Cynghorau Cymuned Llŷn i ddynodi'r ardal yn Ardal o Arwyddocâd Ieithyddol Dwysedd Uwch, mae 'cynlluniau i warchod a chryfhau'r Gymraeg', wedi cael ei ychwanegu at restr o gynlluniau fydd yn cael blaenoriaeth yn y Cynllun Adfywio Lleol, Cynllun Ardal Ni Pen Llŷn 2035, am y tro cyntaf erioed. Gwnaed y penderfyniad mewn cyfarfod wrth wirio'r Cynllun Ardal Ni Pen Llŷn drafft ar 4/6/24, yn Abersoch. Rydym yn hyderus y bydd y Gymraeg yn cael yr un flaenoriaeth yng nghynllun Ardal Bro Pwllheli hefyd.

**Cefnogaeth AHNE Llŷn**

Un o brif nodau AHNE Llŷn yw 'cynnal, gwarchod a hyrwyddo diwylliant unigryw Llŷn a'r iaith Gymraeg' – fel a nodir o tu.82 ymlaen yn strategaeth diweddaraf ar wefan AHNE Llyn (2015-20).

Rydym felly, yn estyn gwahoddiad i Gyd-bwyllgor yr AHNE ddatgan cefnogaeth i : -

1. argymhelliad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg i ddynodi 'ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch'.
2. weithio tuag at wireddu ein gweledigaeth o Benrhyn Llŷn yn 2050, lle bydd Croeso Cymraeg i bawb, miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru ac ymwybyddiaeth fyd-eang o werth ein hetifeddiaeth Gymreig a Chymraeg.

Cyflwynwyd gan Sian Parri (cydlynydd prosiect Perthyn)